Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Sbwriel hirbarhaol

**Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn tanlinellu pwysigrwydd rheoli ein adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, ac yn canolbwyntio ar faint o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu, pwysigrwydd ailgylchu a'r effaith y gall cael gwared ar svwriel mewn modd amhriodol ei gael ar yr amgylchedd, ar gymunedau ac ar yr economi.**



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae hyn yn golygu gwarchod tir, dŵr, aer, pridd, planhigion a bywyd gwyllt er mwyn gwella lles Cymru ac er mwyn sicrhau gwell dyfodol i bawb.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:**

- **Disgrifio faint o amser mae'n gymryd i ddeunyddiau penodol ddadelfennu yn y môr.**
- **Trafod effeithiau taflu sbwriel ar yr amgylchedd naturiol yn lleol ac yn fyd-eang**

## Hyd y sesiwn:

25 munud

## Maes cwricwlwm

ADCDF
Daearyddiaeth

## Lleoliad

Unrhyw amgylchedd awyr agored neu dan do (os bydd lle ar gael)

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Dolenni Cwricwlwm

### CA2 ADCDF
**Defnydd a gwastraff**
O ble daw'r pethau y mae pobl yn eu defnyddio a beth sy'n digwydd iddynt
Bod gwastraff yn gallu achosi llygredd

### CA2 Daearyddiaeth
**Astudio**
Byw yn fy myd: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang

### CA3 ADCDF
**Amgylchedd naturiol**
Dangos pryder deallus ynghylch ansawdd yr amgylchedd naturiol ym mhell ac agos

### CA3 Daearyddiaeth
**Astudio**
Dinasyddion yfory: materion yng Nghymru a'r byd ehangach o fyw yn gynaliadwy a chyfrifoldebau'r dinesydd byd-eang

**Sylwer y bydd y gweithgaredd hwn hefyd yn eich helpu i gyflawni agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Chymwyseddau Digidol.**

## Offer ac adnoddau

- **Tabl: llinell amser gwastraff**
- **Dau fag yn cynnwys darnau penodol o 'wastraff' o'r tabl llinell amser.**
- **Cardiau adnodd: Gwastraff llanwol - yn canolbwyntio ar wastraff yn y môr**
- **Cardiau adnodd: Sbwriel tir - yn canolbwyntio ar wastraff ar y tir**

## Beth i'w wneud

### Rhan 1 – Faint mae 'sbwriel' yn gymryd i ddadelfennu

- Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai a rhowch fag o 'sbwriel' yr un fath i bob grŵp.
- Gofynnwch i'r grŵp pa mor hir yn eu tyb hwy fyddai'n gymryd, mewn oriau, wythnosau neu flynyddoedd i bob un o'r eitemau ddadelfennu yn y môr.
- Fel grŵp, ceisiwch gytuno/gyfaddawdu a threfnu'r gwrthrychau yn ôl pa mor hir fydd hi'n gymryd iddynt ddadelfennu – lluniwch linell amser.
- Dylai'r grwpiau drefnu eu 'sbwriel' mewn rhes ochr yn ochr â llinellau amser grwpiau eraill i hwyluso'r gwaith o gymharu eu dewisiadau.
- Defnyddiwch y tabl Llinell Amser Gwastraff i fynd drwy bob eitem a thrafod faint o amser mae'n gymryd i ddadelfennu.

### Rhan 2 – Canlyniadau sbwriel

- Ar ôl sefydlu fod yr eitemau yn yr amgylchedd am amser hir iawn, trafodwch pa ddifrod allent fod yn ei wneud
- Dewiswch y cardiau adnodd sydd fwyaf perthnasol i'ch grŵp chi.
- Os ydych yn canolbwyntio ar sbwriel ar y tir dewiswch rai o'r cardiau adnodd *Sbwriel Tir* neu os ydych yn dymuno canolbwyntio ar effaith sbwriel ar amgylchedd morol dewiswch rai o'r cardiau adnodd *Gwastraff Llanwol*.
- Dosbarthwch y cardiau adnodd i'r grwpiau llai.
- Rhoŵch rywfaint o amser i bob grŵp edrych ar eu cerdyn a darllen yr wybodaeth.
- Ewch o amgylch y grwpiau yn gofyn iddynt ddangos ac egluro eu cerdyn i weddill y dosbarth.
- Ar ôl trafod effeithiau negyddol sbwriel ar yr amgylchedd, gofynnwch i'r grwpiau pa gamau positif y gallent eu cymryd i leihau eu heffaith neu i helpu'r sefyllfa.
- Gallai awgrymiadau gynnwys, lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu, rhoi sbwriel mewn bin bob amser, atgoffa aelodau'r teulu i fynd â bag gyda hwy i siopa, cymryd rhan mewn ymgyrch glanhau traeth, codi ymwybyddiaeth yn yr ysgol/y cartref/yn eu cymuned leol neu ddechrau ymgyrch e.e. i roi'r gorau i ryddhau balwnau mewn digwyddiadau neu i ddefnyddio llusernau papur, ayyb.

### Awgrymiadau o Gwestiynau Allweddol

- Beth yw hwn – deunydd naturiol, deunydd gwneud, deunydd organig neu anorganig?
- Sut y gallai hwn fod wedi cyrraedd y môr?
- Pa ffactorau allai newid llinell amser dadelfennu?
- Beth yw ystyr bioddiraddadwy?
- Beth yw'r dull priodol o waredu?
- Pa newidiadau ymddygiad allwch eu gwneud i sicrhau fod llai o sbwriel a gwastraff yn diweddu yn yr amgylchedd naturiol?

## Addasu ar gyfer anghenion/ galluoedd gwahanol

Llai galluog:
- Cwblhau gweithgaredd llinell amser fel grŵp a/ neu gyda chymorth ychwanegol gan oedolion
- Llai o fanylion technegol ynglŷn ag eitemau

Mwy galluog:
- Grŵp i greu llinell amser ar y llawr gyda graddfa ac ychwanegu eitemau sbwriel yn y lle priodol ar y llinell amser
- Grwpiau i roi adborth gyda mwy o syniadau ynglŷn â'r cardiau lluniau/gwybodaeth gan gynnwys sut y gellir rhoi camau mewn lle i leihau'r problemau

## Gweithgaredd dilynol/estynedig

- Ymchwilio ymhellach i wybodaeth am ffynonellau a chanlyniadau gwastraff yn y môr
- Dilyn unrhyw un o'r camau gweithredu a awgrymwyd ar ddiwedd rhan 2, e.e. ysgrifennu llythyr at AS, codi ymwybyddiaeth yn y gymuned leol.

Rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn:
- *Lloffion papur newydd*
- *Dal tipiwr anghyfreithlon*
- *Y Tair C - gollwng sbwriel a thipio anghyfreithlon*
- *A wyddech chi ....?*

## Gwybodaeth ychwanegol

Gall ffigurau amrywio o'r naill ffynhonnell i'r llall ond nid dysgu'n union pa mor hir mae'n gymryd i eitemau ddadelfennu yw pwysigrwydd y gweithgaredd ond yn hytrach tynnu sylw at y ffaith y bydd ein gwastraff yn parhau am amser maith ac ystyried pa effaith y gallai gwaredu amhriodol fel taflu sbwriel ei gael ar yr amgylchedd.

Y ffynonellau a ddefnyddiwyd i greu'r tabl *Llinell Amser Gwastraff* yw:
www.mass.gov/eea/docs/czm/coastsweep/pocket-guide-2003.pdf
www.tangaroablue.org/resources/fact-sheets.html

Bydd yr amser a gymer deunyddiau i ddadelfennu yn amrywio ac mae'n ddibynnol ar amodau megis tymheredd, gwlybaniaeth, ocsigen ayyb. Bydd rhai deunyddiau yn pydru (yn cael eu torri i lawr gan ficro organebau), a gallai rhai eraill fel plastig gael eu torri i lawr gan oleuni uwch-fioled tra gall rhai eraill ddadelfennu yn ddarnau microsgopig llai. O ystyried faint o amser mae rhai mathau o wastraff yn ei gymryd i ddadelfennu mae llawer o'r ffigurau hyn yn amcangyfrifon. Gellir canfod rhagor o wybodaeth ar sut i gyfrifo'r amcangyfrifon hyn yn www.sciencelearn.org.nz/Contexts/Enviro-imprints/Looking-Closer/Measuring-biodegradability



Fformat amgen; print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@ cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru

FSC® C-115912
Arwydd o Goedwigaeth Gyfrifol
The mark of responsible forestry
Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
RECYCLED Paper made from recycled material FSC® C008921
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
NRWRC000